# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Hugh Irving, yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid; Barbara Smith, yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, David Smith, yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd, Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol dros Addysg

**Arsyllwyr:** Y Cynghorwyr Richard Davies, Colin Hughes, Huw Hilditch-Roberts a Win Mullen-James

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW); Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr (LJ); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Adnewyddu Tai ac Ardal Tai/ Rheolwr Rheoli Adeiladu (GR); Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR); Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Rheolwr Eiddo (DL); Uwch Beiriannydd Rheoli'r Perygl o Lifogydd (WH), a Gweinyddydd y Pwyllgor a (KJ).

## TEYRNGED - JANE KENNEDY

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y newyddion trist fod Jane Kennedy, cyn Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol wedi marw'n ddiweddar ar ôl salwch byr. Talodd deyrnged i flynyddoedd o wasanaeth Jane i lywodraeth leol ac estynnodd gydymdeimlad y Cyngor i'w theulu. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged dawel.

## TREFN YR AGENDA

Rhoddodd yr Arweinydd wybod am ei fwriad i amrywio trefn y materion a symud eitem 6 yr agenda, Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, i ddiwedd eitemau Rhan 1 i'w hystyried.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd datganiad o gysylltiad personol nac anffafriol.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013 fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan yr Arweinydd.*

## 5 GRŴP TASG A GORFFEN YR ADOLYGIAD BWYD

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd, yr adroddiad gan roi manylion canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i adolygu polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor mewn perthynas â chaffael bwyd, rheoleiddio a rheoli contractau yn dilyn y sgandal cig ceffyl. Croesawodd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ganfyddiadau'r Grŵp ac argymhellodd fod pob un o'r 13 argymhelliad sy'n codi o'r adolygiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo.

Tynnodd y Cynghorydd Smith sylw'r aelodau at argymhelliad 3.2 oedd yn cynghori bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynnal archwiliad yn Sir Ddinbych yn ystod yr wythnosau diwethaf a awgrymodd nad oedd nifer yr aelodau staff oedd yn gallu cyflawni swyddogaethau rheoliadol i weld yn ddigonol. Nid oedd yr adroddiad archwilio terfynol ar gael eto. Mewn ymateb i gwestiynau, cynghorwyd yr aelodau –

- bod y swyddogion yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion a byddai'r Grŵp Adolygu Bwyd yn edrych i sicrhau bod digon o weithdrefnau ar waith
- bod gwaith wedi'i wneud gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gadarnhau gweithrediad caffael mwy grymus gyda mwy o ddiogelwch dan gytundebau cyfamodol
- bod dull rhagweithiol wedi'i gymryd i olrhain bwyd nôl i'r ffynhonnell.

Canmolodd yr Arweinydd ymateb y Cyngor i'r sgandal cig ceffyl a diogelu budd y cyhoedd. Ar ôl ystyried yr argymhellion –

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Bwyd fel y manylir ym mharagraffau 3.1 – 3.13 yr adroddiad.*

## 6 DATBLYGU 'CYNGOR ARDDERCHOG, SY'N AGOS AT Y GYMUNED'

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving, yr Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau'r adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddull y Cyngor o ddatblygu'r uchelgais o 'Ddod â'r Cyngor yn Agosach at y Gymuned'. Manylwyd ar drosolwg o sut cysylltodd y Cyngor gyda chymunedau a'i ddull diwygiedig yn yr atodiadau i'r adroddiad.

Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid ar y blaenoriaethau dynodedig ar gyfer y Cyngor er mwyn dod â'r Cyngor yn agosach at y gymuned gyda phedair thema newydd a'r camau cysylltiedig. Amlygodd ran pob gwasanaeth

wrth gefnogi'r dull corfforaethol. Byddai hyn yn cael ei fonitro'n barhaus trwy'r Cynllun Gweithredu, y Cynllun Corfforaethol a thrwy'r Broses Herio'r Gwasanaeth.

Cydnabu'r Cyngor y cyflawniadau a ddyluniwyd i ddod â'r cyngor yn agosach at y gymuned a rhoddodd rai enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltiad llwyddiannus gyda'r cyhoedd. Amlygwyd pwysigrwydd ymgysylltu a rhyngweithio gyda chymunedau ond cydnabuwyd hefyd fod amgyffrediad y cyhoedd yn llai cadarnhaol pan oedd yr ymgynghori'n canolbwyntio ar faterion penodol lle bu rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd. Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams y naws negyddol oedd yn perthyn i adolygiadau ysgol yn arbennig a theimlai y byddai rhyw fath o deilyngdod mewn dileu'r cyfeiriad yn 'agos at y gymuned' yn y datganiad o fwriad ac i ganolbwyntio ar yr agwedd fwy cadarnhaol o fod yn 'Gyngor Ardderchog'. Yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol sy'n gwaethygu, byddai angen gwneud penderfyniadau anos ac amhoblogaidd a fyddai'n effeithio'n negyddol hefyd ar amgyffrediad y cyhoedd. Yn ystod y ddadl a aeth rhagddo, derbyniwyd yn gyffredinol y byddai amgyffrediad cyhoeddus negyddol yn codi o faterion penodol ond roedd angen i'r Cyngor ddangos eu hymrwymiad i fynd yn agos at y gymuned. Amlygwyd y pwysigrwydd i'r Cyngor fod yn agored ac yn dryloyw yn ei fusnes ac yn y ffordd yr oedd yn cynnal ymgyngoriadau ac yn gwrando ac yn ymgysylltu â'r gymuned. Derbyniwyd y gallai'r cyngor fod yn agos at y gymuned ond gallai barhau i fod yn amhoblogaidd oherwydd ni fyddai eu penderfyniadau'n cael cefnogaeth pawb. Teimlai'r Cynghorydd Bobby Feeley ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn deall bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd.

Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at yr anawsterau wrth fesur llwyddiant y dull newydd a cheisiodd gael canlyniadau mesuradwy mwy pendant. Er bod amryw strategaethau monitro wedi'u crybwyll, gan gynnwys y cynllun gweithredu, adborth o amryw fforymau a chwynion/canmoliaeth ac arolygon, cydnabuwyd nad oedd mesur llwyddiant pendant. Gan fod y mater yn ymwneud â newid mewn diwylliant, roedd hi'n anodd ei fesur ond roedd ymrwymiad a disgwyliad i lwyddo, a defnyddiwyd strategaethau i gyflawni'r uchelgais. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau pellach fel a ganlyn -

- cydnabuwyd yr angen am ymrwymiad gan swyddogion gan amlygu ymwneud y gwasanaethau yn y broses
- ymhelaethwyd ar broses ddwy ffordd Siarter y Cyngor Dinas/Tref/Cymuned a monitro'i effeithiolrwydd yn barhaus
- roedd dau gyngor tref/cymuned wedi methu arwyddo'r Siarter, un o'r rhain oedd Llandrillo a oedd heb arwyddo oherwydd adolygiad ysgolion eu hardal
- byddai'r rhestr wirio (dosbarthwyd Atodiad 3 yn y cyfarfod) yn cael ei defnyddio i fonitro sut roedd gwasanaethau'n ymateb i anghenion y cwsmeriaid, a
- byddai'r wefan newydd yn cael ei lansio'n gyhoeddus ar 19 Awst a byddai'n fwy rhyngweithiol i alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu'n haws gyda'r Cyngor.

Adroddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ar safbwyntiau cymysg y Pwyllgor Archwilio Cymunedau wrth ystyried yr adroddiad ac amlygodd yr angen am gynllun ymgysylltu â'r gymuned effeithiol ac am ailwampio Siarter y Cynghorau Tref/Cymuned i'w gwneud hi'n fwy deniadol. Amlygodd hefyd yr angen i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig gyda phobl ifanc. Teimlai'r Cynghorydd Colin Hughes fod rhaid i gynghorwyr ymgysylltu â'u

cymunedau a dylai'r agwedd honno gael ei chynnwys yn gryfach yn hyfforddiant yr aelodau.

Cytunodd yr aelodau ei bod hi'n bwysig cynnal a diwallu uchelgais y cyngor o fynd yn agosach at y gymuned a –

***PHENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) yn cymeradwyo'r dull newydd o droi at y diffiniad o fod yn Gyngor Ardderchog sy'n Agos at y Gymuned fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad;*

*(b) yn gofyn i bob gwasanaeth ddatblygu eu cynlluniau eu hunain er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r pedair thema a amlinellwyd yn y cynllun trosolwg a osodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, ac yn*

*(c) cymeradwyo adolygiad o weithgarwch Grŵp Ardal Aelodau i sicrhau bod cyfleoedd i gael adborth ac i fesur safbwyntiau'r gymuned ar lefel ardal.*

## 7 DIOGELU OEDOLION

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yr adroddiad yn rhoi manylion y cynigion ar gyfer trefniadau Diogelu Oedolion i'r dyfodol yn unol â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Ceisiwyd cytundeb y Cabinet i newid y trefniadau presennol i ddiogelu oedolion, yn unol â phob partner ar draws Gogledd Cymru, i'r dewis sy'n cael ei ffafrio sef Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru â Dwy Haen.

Wrth ystyried y cynigion, ceisiodd y Cabinet gael sicrwydd mewn perthynas â'r trefniadau ariannu a rheoli gwendidau dynodedig, yn enwedig o ran atebolrwydd. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes fod disgwyl cael cyllid cydweithredu rhanbarthol er mwyn symud y prosiect yn ei flaen. Petai'r cais am gyllid yn aflwyddiannus, byddai'r prosiect yn parhau i fynd yn ei flaen ond byddai'n cymryd mwy o amser i roi'r cynigion ar waith. Darparwyd sicrwydd y byddai'r trefniadau'n cael eu goruchwylio gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru. Byddai dogfennau'n cael eu paratoi ymlaen llaw gan osod yn glir gyfrifoldebau'r byrddau rhanbarthol ac isranbarthol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynigion i newid y trefniadau presennol ar gyfer Diogelu Oedolion, yn unol â phob partner ar draws Gogledd Cymru, i'r dewis sy'n cael ei ffafrio o Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru â Dwy Haen.*

## 8 FFURFIO TÎM CEFNOGI TEULUOEDD INTEGREDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley, yr Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet i sefydlu Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig yn Sir Ddinbych yn unol â'r gofynion statudol.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd rywfaint o gefndir i’r adroddiad a’r rhesymeg y tu cefn i’r gofyniad i sefydlu Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig. Adroddodd ar y gwaith a gynhaliwyd mewn perthynas â hynny ac ymhelaethodd ar y cynigion yng Ngogledd Cymru a Sir Ddinbych yn arbennig a fyddai’n debygol o fod yn weithredol o 31 Rhagfyr 2013 ymlaen. Cyfeiriwyd hefyd at fanteision y dull hwnnw ynghyd â’r trefniadau ariannu. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Smith, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y byddai cyllid grant yn 2013/14 yn galluogi ar gyfer cyflogi tri aelod arall o staff i’r tîm. Rhoddwyd sicrwydd i Lywodraeth Cymru o 2014/15 ymlaen, y byddai rhyw £136 mil yn cael ei ychwanegu at y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y trefniadau Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig a fyddai’n cael eu defnyddio i ariannu’r swyddi ychwanegol hynny.

Gofynnodd y Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr am fwy o eglurder yn yr argymhelliad y manylir arno yn yr adroddiad. O ganlyniad –

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i sefydlu Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig yn Sir Ddinbych yn dilyn ei ddyletswyddau dan Adran 57 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.*

## 9 AROLWG LLETY SWYDDFA GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau’r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynigion rhesymoli swyddfeydd Gogledd Sir Ddinbych ynghyd â ffurfio cynlluniau datblygu tymor hir.

Amlinellodd yr adroddiad y gwaith a gynhaliwyd mewn perthynas ag Adolygiad Llety Swyddfa Gogledd Sir Ddinbych ynghyd ag amlinelliad o’r ystyriaethau a’r argymhellion strategol. Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar y rhesymeg y tu cefn i’r cynigion terfynol a oedd yn cynnwys gwagio swyddfeydd Tŷ Nant, Prestatyn yn amodol ar nodi defnydd arall. Roedd y cynigion tymor hir yn cynnwys datblygiad posibl i safle Prestatyn ac adeilad swyddfa newydd yn y Rhyl. Cyfeiriwyd hefyd at yr ymarfer ymgynghori a’r pryderon a godwyd ynghyd â’r ymatebion i’r rheiny. Cynghorodd y Cynghorydd Barbara Smith fod yr adolygiad yn rhan o’r strategaeth foderneiddio ac amlygodd ymwneud y Bwrdd Moderneiddio yn y broses a phwysigrwydd bwrw ymlaen â’r cynigion cyn gynted â phosibl.

Roedd y Cabinet yn hapus bod cynnydd yn cael ei wneud wrth adolygu asedau a mynd i’r afael â’r mater o adeiladau dros ben. Cwestiynodd yr aelodau amryw agweddau ar y broses adolygu llety swyddfa a’r canfyddiadau er mwyn bodloni eu hunain bod y cynigion terfynol wedi rhoi’r ffordd orau ymlaen. Wrth roi sylwadau ar yr adroddiad, mynegodd yr aelodau bryder penodol mewn perthynas â’r cyflwr gwael a’r costau uchel sy’n gysylltiedig â 6 – 8 Ffordd Llys y Nant. Ymatebodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill a’r swyddogion i gwestiynau a sylwadau’r aelodau fel a ganlyn –

- cydnabuwyd pryderon mewn perthynas â chyflwr gwael a chost uchel 6 – 8 Ffordd Llys y Nant gan roi manylion y rhesymau pam na chafodd ei gynnwys yn y cam cychwynnol ond yr eir i’r afael â nhw fel rhan o’r cynigion tymor hwy

- dan yr arfer presennol, byddai costau symud yn cael eu talu i staff sy'n cael eu heffeithio a fyddai'n teithio ymhellach i'r gwaith o ganlyniad i'r cynigion
- cytunwyd y gallai ansicrwydd o gwmpas y cynigion fod yn annifyr i'r staff ac os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion, byddent yn cael eu symud ymlaen cyn gynted â phosibl gan fod yn sensitif i'r staff a chan ddefnyddio cyn lleied o ymyrraeth â phosibl
- ymhelaethwyd ar rôl y Gwasanaethau Eiddo, Adnoddau Dynol a TGCh yn y broses i sicrhau trawsnewid llyfn a hwyluso arferion gwaith eraill
- darparwyd sicrwydd mewn perthynas â'r trefniadau prydlesu ar gyfer Ffordd Brighton gan fod y landlord yn dymuno cadw'r Cyngor fel tenant
- darparwyd rhai arbedion dangosol oedd yn codi o'r cynigion o ran costau gweithredu a phrydlesu ond byddai ffigurau mwy pendant yn cael eu cynhyrchu yn dilyn yr ymarfer marchnata  a ffurfio'r achos busnes.

Roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn ystyried Tŷ Nant yn ased gan ddangos ymrwymiad a phresenoldeb y Cyngor yn y dref a chododd bryderon mewn perthynas ag effaith economaidd y cynigion. Teimlai nad oedd yn gwneud synnwyr busnes i barhau i brydlesu 64 Ffordd Brighton pan oedd y Cyngor yn berchen ar Dŷ Nant yn gyfan gwbl ac awgrymwyd y gallai Ffordd Brighton gael ei wagio'n rhannol a'i symud i Brestatyn i leihau costau rhent. Mynegodd amheuon hefyd am ddod o hyd i denant ar gyfer Tŷ Nant a gofynnodd am sicrwydd, petai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, y byddai Tŷ Nant yn aros i gael ei ddefnyddio hyd nes y deuir o hyd i denant. Darparwyd yr ymatebion canlynol:

- rhoddwyd sicrwydd y byddai Tŷ Nant yn parhau'n barod i'w ddefnyddio hyd nes i'r ymarfer marchnata gael ei gyflawni i benderfynu ar ddiddordeb a gwerth
- rhagwelwyd, ar yr amod bod y Cyngor yn hyblyg, y gellid dod o hyd i denant yn gyflym – ond os na ellid dod o hyd i denant, byddai'r mater yn mynd nôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach
- cynigiwyd nad oedd staff yn Nhŷ Nant yn cyfrannu'n sylweddol at economi'r dref a fyddai'n cael ei liniaru mewn unrhyw ddigwyddiad yn sgil sicrhau tenant newydd a buddsoddiad sylweddol potensial o ddatblygu'r safle i'r dyfodol
- roedd prydlesu 64 Ffordd Brighton yn cynrychioli gwerth da am arian.

Yn ystod dadl, derbyniwyd bod gan y Cyngor ormod o le swyddfa ac roedd angen iddo gael ei ostwng yn unol ag anghenion cyflawni gwasanaethau ac er mwyn gwneud arbedion ar gostau. Yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiad llety, y consensws oedd nad oedd achos busnes i gadw Tŷ Nant a chefnogodd y Cabinet yr argymhellion fel a osodwyd yn yr adroddiad fel y dewis gorau i resymoli llety swyddfa yng Ngogledd y sir.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *yn cymeradwyo gwagio swyddfeydd Tŷ Nant Prestatyn (yn amodol ar nodi a gweithredu'r defnydd arall) fel y dewis sy'n cael ei ffafrio (dewis 3 fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.7 – 4.9 fel a osodwyd yn yr adroddiad) ar gyfer rhesymoli swyddfeydd yng Ngogledd y Sir;*

(b) *yn cymeradwyo'r gwaith o gyflawni ymarfer marchnata i adeilad Tŷ Nant Prestatyn ar sail prydles tymor canolig i hwyluso gwagio'r adeilad gan staff Cyngor Sir Ddinbych, ac*

(c) *yn cymeradwyo ffurfio Brîff Cynllunio i hwyluso cynllun datblygu tymor hir ar gyfer safle Prestatyn fel yr amlinellir yn goch yn Atodiad 1 i'r adroddiad a datblygu brîff dylunio ac astudiaeth ddichonoldeb i ddarparu adeilad swyddfa newydd yn y Rhyl.*

Gohiriwyd y cyfarfod yn y fan hon am 11.55 a.m. am egwyl lluniaeth.

## 10 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn rhoi manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb gytûn. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- rhagwelwyd tanwariant net o £45 mil ar y gyllideb refeniw ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- rhagwelwyd symudiad cadarnhaol i ysgolion o £352 mil gyda chyllidebau ysgol heb eu dirprwyo'n rhagweld tanwariant o £150 mil
- cyflawnwyd £1.267m (41%) o'r arbedion y cytunwyd hyd yma
- amlygwyd amrywiadau allweddol o dargedau cyllidebau neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol (manylion yn Atodiad 5 yr adroddiad) mewn perthynas â'r gwaith dylunio ar gyfer Ysgol Glan Clwyd. Croesawodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r dull rhagweithiol a gymerwyd gan y Cyngor o ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a oedd yn dechrau cynhyrchu canlyniadau. Roedd Llywodraeth Cymru newydd sicrhau bod cyllid ar gael i gyflymu'r cynnig yng Nglan Clwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod* –

(a) *y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb gytûn yn cael eu nodi, a bod*

(b) *argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y manylir yn Atodiad 5 mewn perthynas â'r gwaith dylunio ar gyfer Ysgol Glan Clwyd yn cael ei gymeradwyo.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried. Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams y posibilrwydd y gallai'r adroddiad ar Ddarpariaeth Addysg Seiliedig ar Ffydd gael ei ohirio o fis Medi i fis Hydref yng ngoleuni cyfoeth yr ymatebion i'r ymgynghori a ddaeth i law. Gofynnodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau hefyd fod adroddiad ar Reolaeth y Trysorlys yn cael ei ychwanegu at raglen waith y Cabinet ar gyfer mis Medi.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*.

## 12 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd yr adroddiad gan roi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd prosiect cyn Ysbyty Gogledd Cymru a cheisio cefnogaeth y Cabinet i weini Gorchymyn Prynu Gorfodol ar gyfer y safle a gwneud cynnig i'w brynu.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth gefndirol a arweiniodd at y sefyllfa bresennol ac amlinellodd y risgiau cyffredinol oedd yn gysylltiedig â phroses y Gorchymyn Prynu Gorfodol. O gofio cymhlethdodau'r safle, argymhellwyd petai'r Cyngor yn llwyddiannus gyda'r Gorchymyn Prynu Gorfodol neu os byddai'r cynnig i brynu'r safle'n cael ei dderbyn, byddai awdurdodiad pellach y Cabinet yn cael ei geisio cyn cymryd perchnogaeth ffurfiol o'r safle.

Amlygodd yr Arweinydd gyfeiriadau'r cyfryngau at leoliad y carchar newydd yng Ngogledd Cymru. Eglurodd fod y safle hwn a safle Green Gate Llanelwy yn anaddas oherwydd y maint a'r cyfyngiadau cynllunio.

Cododd yr aelodau gwestiynau mewn perthynas â'r goblygiadau ariannol a'r bwriadau ar gyfer yr adeilad i'r dyfodol a rhoddwyd yr ymatebon canlynol -

- byddai'r prosiect yn arwain at ddim cost i'r awdurdod lleol na threthdalwyr y cyngor
- roeddent yn aros am ganlyniad y tair apêl cynllunio oedd yn weddill cyn cymryd camau i geisio adennill taliad mewn perthynas â'r ddwy apêl annilys
- byddai prisiad annibynnol o'r safle'n cael ei wneud er mwyn cadarnhau gwerth yr iawndal i'w dalu
- penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio fyddai cyhoeddi'r Gorchymyn Prynu Gorfodol a byddai'n debygol o gymryd rhyw bymtheg mis i'w cwblhau
- byddai angen ystyried bwriadau i'r safle i'r dyfodol mewn sesiwn gaeedig ond byddai unrhyw brosiect yn ceisio bod o fantais i dref Dinbych a'r sir yn gyfan.

Roedd atodiadau cyfrinachol yn ymwneud â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol yn cyd-fynd â'r adroddiad ac er mwyn trafod y mater hwnnw a bwriadau i'r dyfodol ar gyfer y safle - ***PENDERFYNWYD*** *bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod am y rhesymau y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio'n debygol o gael eu datgelu fel y diffiniwyd ym Mharagraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Trafododd y Cabinet faterion yn ymwneud â'r Gorchymyn Prynu Gorfodol gan gynnwys risgiau cysylltiedig, ystyriaethau ariannol a chynlluniau i'r dyfodol. Roedd yr aelodau'n awyddus i ddiogelu'r adeilad a sicrhau bod y safle'n cael ei ddatblygu i fod o fantais i'r ardal. Wrth gydnabod yr angen am gyfrinachedd, roedd yr aelodau hefyd yn awyddus i ymdrin â'r mater mor agored â phosibl, heb niweidio sefyllfa'r Cyngor. Ar ddiwedd y drafodaeth, ailgydiodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

(a) *yn cefnogi cyhoeddi Gorchymyn Prynu Gorfodol ar y safle ac yn argymell bod y Pwyllgor Cynllunio'n awdurdodi hynny;*

(b) *yn cefnogi'r Swyddogion i wneud cynnig i brynu'r safle'n seiliedig ar yr ymateb gan Brisiwr Annibynnol a ffactorau materol eraill, a*

(c) *chyn prynu'r safle'n ffurfiol, boed trwy Orchymyn Prynu Gorfodol neu drwy drafodaethau, bydd awdurdodiad pellach yn cael ei geisio gan y Cabinet.*

## 13 AILDDATBLYGU 21 -24 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau'r adroddiad cyfrinachol oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r telerau terfynol a gytunwyd gyda'r Partner Datblygu i ddatblygu eiddo ar Rodfa'r Gorllewin, y Rhyl. Darparwyd manylion y Cytundeb oedd yn amlinellu'r cynigion i ddatblygu'r eiddo ynghyd â'r telerau ariannol a'r risgiau cysylltiedig.

Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams fod y bwrdd i ddiogelu'r safle'n cael ei ddefnyddio fel arf hyrwyddo i greu delwedd brydferth o'r datblygiad.

Achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i longyfarch y Pennaeth Cyllid ac Asedau ar ei weledigaeth a arweiniodd at ailddatblygiad llwyddiannus yr ardal.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cadarnhau'r telerau a gytunwyd gyda'r 'Partner Datblygu' Chesham Estates i ddatblygu'r eiddo 21 – 24 Rhodfa'r Gorllewin (a adwaenwyd fel The Honey Club yn y gorffennol), y Rhyl ac eiddo ychwanegol sy'n cynnwys y modurdy i gefn 27-28 Rhodfa'r Gorllewin (eiddo CSDd) a 25 – 26 Rhodfa'r Gorllewin (yn amodol ar Orchymyn Prynu Gorfodol). Mae cynllun ynghlwm fel Atodiad B i'r adroddiad sy'n dangos yr ardal wedi'i llinellu'n goch*.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod am yr eitemau busnes canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffiniwyd ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 14 CYNLLUN RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD CORWEN - GWOBRWYO CONTRACT

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Corwen. Cafodd gwybodaeth gefndirol ar y cynllun rheoli peryglon a'r broses dendro ei chynnwys yn yr adroddiad.

Cymerodd y Cynghorydd Huw Jones y cyfle i ddiolch i'r Uwch Beiriannydd – Rheoli Perygl Llifogydd am y gwaith a wnaeth mewn perthynas â'r cynllun a

werthfawrogwyd hefyd gan drigolion Corwen. Roedd y Cynghorydd Jones yn gobeithio y byddai'r cynllun yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu contract i'r contractwr a enwyd ym mharagraff 3 yr adroddiad.*

Clodd y cyfarfod am 1.05 p.m.